**Cofnodion y Grŵp Trawsbleidiol ar Dlodi Tanwydd ac Effeithlonrwydd Ynni**
**1 Hydref 2019**

| Yn bresennol | | | | |
|---|---|---|---|---|
| **Mark Isherwood AM (Cadeirydd)** | Aelod Cynulliad | | **Crispin Jones** | Arbed am Byth |
| **Carole Morgan-Jones** | NEA Cymru | | **Ben Sears** | Cymdeithas Llywodraeth Leol Cymru |
| **Ben Saltmarsh** | Smart Energy GB | | **Rob Palmizi** | Cyngor ar Bopeth |
| **Gowan Watkins** | Llywodraeth Cymru | | **Simon Lannon** | Prifysgol Caerdydd |
| **Phil Dawson** | E.ON | | **Liz Lambert** | Cyngor Caerdydd |
| **Stephen Chamberlain** | Llywodraeth Cymru | | **Caroline Summers** | Melin Homes |
| **Rhian Cook** | Melin Homes | | **Steffan Evans** | Sefydliad Bevan |
| **Juliet Morris** | Care & Repair Cymru | | **Andrew Padmore** | Egnida |
| **Isabelle Michelson** | Grayling | | **Ben Coates** | Grayling |
| **Jonathan Cosson** | Warm Wales | | **Mike Anderson** | Ofgem |
| **Tim Thomas** | NRLA | | **Claire Cunliffe** | Oxfam Cymru |
| **Jasmine Jones** | Sipsiwn a Theithiwr | | **Rita Singh** | Kingspan |

| Apologies | | | | |
|---|---|---|---|---|
| **Adam Price** | Plaid Cymru | | **Tyler Walsh** | Ceidwadwyr Cymreig |
| **Dawn Shakespeare** | UKIFDA | | | |

## 1. Croeso a chyflwyniadau

Croesawodd Mark Isherwood (MI) Aelodau a rhanddeiliaid i'r cyfarfod. Nododd Carole Morgan-Jones (CMJ) yr ymddiheuriadau a oedd wedi dod i law. Cafodd cofnodion y cyfarfod blaenorol ar 22 Mai 2019 eu cytuno.

Dechreuodd MI drwy dynnu sylw at y wybodaeth ddiweddaraf gan Lywodraeth Cymru am y Cynllun Cartrefi Clyd a'r adroddiadau diweddaraf ar gyfer y cynlluniau Nyth ac Arbed yn 2018-19, a gyhoeddwyd yn yr haf. Ers i'r cynlluniau i wella effeithlonrwydd ynni ddechrau 9 mlynedd yn ôl, mae Llywodraeth Cymru wedi buddsoddi dros £265 miliwn yn y cynlluniau hyn, gan helpu i wella effeithlonrwydd ynni 54,800 o gartrefi.

Yn 2018-19, mae'r cynllun Nyth wedi darparu £15.9 miliwn o gyllid i 15,606 o bobl i'w cyfeirio at nifer o wasanaethau trydydd parti i gael cymorth. Hefyd, mae effeithlonrwydd ynni dros 3,800 o gartrefi wedi'i wella. Mae adroddiad cyntaf cynllun Arbed Am Byth yn dangos bod £1.2 miliwn o gyllid wedi'i ddarparu gan Lywodraeth Cymru i helpu i wella effeithlonrwydd ynni 145 o dai.

Hefyd, ym mis Gorffennaf, cyhoeddodd y Grŵp Cynghori ar Ddatgarboneiddio Cartrefi Presennol ei adroddiad, 'Cartrefi Gwell, Cymru Well, Byd Gwell', gan argymell sut i gyrraedd y targedau o ran datgarboneiddio. Un o'r prif argymhellion oedd y dylai Llywodraeth Cymru ymrwymo i raglen o ddatgarboneiddio eiddo preswyl dros 30 mlynedd ac i flaenoriaethu ôl-osod cartrefi tlawd o ran tanwydd a chartrefi cymdeithasol yn ystod y deng mlynedd nesaf er mwyn iddynt gyrraedd band A y tystysgrif perfformiad ynni.

2. **Gowan Watkins, Pennaeth Rhaglen Cyflwr Tai Cymru, Llywodraeth Cymru**

Croesawodd MI Gowan Watkins (GW) o Lywodraeth Cymru, a gyflwynodd canfyddiadau Arolwg Cyflwr Tai Cymru ar gyfer 2017-18, gan roi'r wybodaeth ddiweddaraf am gyflwr y stoc tai yng Nghymru. Dengys yr arolwg fod 69 y cant o anheddau yng Nghymru yn sector y perchen-feddiannydd yn 2017-18, sef y gyfradd isaf ers 1993 a gostyngiad o 4 y cant ers 2008. Mewn cyferbyniad, roedd canran yr anheddau rhent preifat wedi cyrraedd y lefel uchaf ers 1981, sef 13 y cant, ac roedd y sector rhent cymdeithasol wedi cyrraedd 18 y cant. Cymru sydd â'r stoc hynaf yn y DU o ran anheddau, gyda dros chwarter o'r holl anheddau (26 y cant) wedi'i adeiladu cyn 1919. Y ffigur SAP cyfartalog ar gyfer anheddau preswyl yng Nghymru oedd 61, sef yr isaf ledled y DU, sydd gyfwerth â thystysgrif perfformiad ynni band D.

O ran lefelau tlodi tanwydd yng Nghymru, dangosodd yr arolwg fod 155,000 o aelwydydd yn byw mewn tlodi tanwydd yn 2018, sef 19 y cant o'r holl aelwydydd, a bod 19,000 o aelwydydd yn byw mewn tlodi tanwydd difrifol. Mae nodweddion yr aelwydydd sy'n wynebu tlodi tanwydd yn awgrymu mai'r mathau mwyaf cyffredin yn 2018 oedd pensiynwyr unigol (29 y cant) a phobl sengl (22 y cant).

Fodd bynnag, aelwydydd yn y sector rhent preifat oedd â'r gyfran uchaf o aelwydydd mewn tlodi tanwydd. Roedd tua 20 y cant o'r holl aelwydydd rhent preifat mewn tlodi tanwydd o'i gymharu ag 11 y cant o anheddau perchen-feddiannydd a 9 y cant o dai cymdeithasol

Roedd aelwydydd mewn ardaloedd gwledig yn fwy tebygol o wynebu tlodi tanwydd. O'r holl aelwydydd mewn ardaloedd gwledig, roedd 14 y cant yn dlawd o ran tanwydd, o'i gymharu â 10 y cant o'r holl aelwydydd mewn ardaloedd trefol.

Roedd nifer uchel o achosion o aelwydydd yn wynebu tlodi tanwydd ymhlith y rhai sydd heb systemau gwres canolog. O blith yr aelwydydd hyn, mae'r canran sy'n byw mewn tlodi tanwydd yn codi i 39 y cant.

3. **Stephen Chamberlain, Cangen Effeithlonrwydd Ynni Domestig a Thlodi Tanwydd, Llywodraeth Cymru**

Amlinellodd Stephen Chamberlain y wybodaeth ddiweddaraf am gynnwys tebygol cynllun tlodi tanwydd newydd Llywodraeth Cymru, y disgwylir iddo fod yn destun ymgynghoriad yn fuan. Soniodd y disgwylir i'r cynllun peilot ar gyfer cyflyrau iechyd gael ei gynnwys yn y cynllun tlodi tanwydd ehangach, sef Nyth. Roedd Swyddfa Archwilio Cymru yn cynnal adolygiad o'r dirwedd i lywio'r gwaith o ddatblygu'r cynllun.

O ran targedau o fewn yr ymgynghoriad, roedd Llywodraeth Cymru am gael targedau ystyrlon, ond mae’n annhebygol o fod yn darged i ddileu tlodi tanwydd. Bydd y targed yn fwy tebygol o ddilyn dull Llywodraeth yr Alban, sef gostwng tlodi tanwydd i lefel ‘dderbyniol’.

Mae’r diffiniad o dlodi tanwydd hefyd yn annhebygol o newid, felly bydd y diffiniad o 10 y cant yn parhau i gael ei ddefnyddio. Mae’r cwestiwn o ddefnyddio gostyngiad o ran cilowat awr gan aelwyd yn hytrach na gwella eiddo i gyrraedd lefel benodol o ran y dystysgrif perfformiad ynni hefyd yn cael ei ystyried.

Mae Llywodraeth Cymru am i’r cynllun ffocysu ar ddull sy’n canolbwyntio ar y person, yn hytrach na gwella effeithlonrwydd ynni'r cartref yn unig. O ganlyniad i hyn, agwedd allweddol ar y cynllun newydd fydd gwella gwasanaethau cyngor a chymorth i aelwydydd.

**4. Trafodaeth**

Gofynnwyd cwestiynau ynghylch manylder y data ac a oedd yn bosibl cael gwybodaeth am strydoedd ac eiddo penodol o’r arolwg. Atebodd GW y gellir gwneud hyn drwy gytundeb mynediad at ddata.

Gofynnodd MI am y cynllun tywydd oer, ond nodwyd y byddai paratoadau ar gyfer y gaeaf yn cael eu cynnwys yn hytrach na chynllun ffurfiol.

**5. Cloi’r cyfarfod**

Diolchodd MI i’r siaradwyr am eu cyflwyniadau ac i’r rhanddeiliaid am fod yn bresennol.

**6. Y cyfarfod nesaf**

Nid yw dyddiad cyfarfod nesaf y grŵp trawsbleidiol wedi’i benderfynu eto. Caiff gwybodaeth am y cyfarfod nesaf ei hanfon maes o law.